Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol

Gwarchod a Gwella Bioamrywiaeth

Cyngor Sir Ddinbych
Cynllunio Strategol a Thai
Gorffennaf 2016

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cynnwys

Ystyriaethau Pwysig i ddarpar ymgeiswyr

1.	Statws y ddogfen a'r camau paratoi	04
2.	Cyflwyniad	04
3.	Polisi Cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall	05
4.	Cyn cyflwyno cais	06
5.	Cofrestru cais cynllunio	08
6.	Penderfynu ar gais cynllunio	09
7.	Gweithredu cais cynllunio	11
8.	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac Asesiad Rheoliadau cynefinoedd	11
9.	Manylion cysylltu	13

Atodiad 1 - Polisïau cynllunio lleol
Atodiad 2 - Arolygon ac adroddiadau ecolegol
Atodiad 3 - Rhywogaethau a safleoedd a warchodir yn Sir Ddinbych
Atodiad 4 - Arweiniad ar yr amser gorau posibl i wneud arolygon ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau penodol
Atodiad 5 - Datblygiadau sy'n effeithio ar Fadfallod Dŵr Cribog a'u cynefinoedd

Sylwer bod y ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
Llun y Clawr: Tylluan Wen (©Keith Offord)

Ystyriaethau Pwysig i ddarpar ymgeiswyr

Mae bioamrywiaeth yn ystyriaeth gynllunio o bwys. Rhaid cyflwyno gyda cheisiadau cynllunio ddigon o wybodaeth i asesu effaith ecolegol y datblygiad arfaethedig.

Mae presenoldeb rhywogaethau a warchodir, cynefinoedd neu safleoedd dynodedig ar neu yng nghyffiniau safle'r cais yn annhebygol o atal datblygiad cyn belled â bod mesurau digonol ar waith i atal effeithiau niweidiol arnynt.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw archwilio tir/adeiladau am bresenoldeb rhywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd a rhoi ystyriaeth iddynt yn ystod y cam o ddylunio'r datblygiad a chyn ceisio caniatâd cynllunio.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i ganiatáu i'r awdurdod cynllunio lleol asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar fioamrywiaeth. Gall y broses o gofrestru ('dilysu') ceisiadau cynllunio gael ei hoedi os oes arolygon ecolegol neu waith asesu ar goll.

Rhaid i arolygon ac asesiadau ecolegol gael eu gwneud gan ecolegydd sydd wedi'i hyfforddi'n annibynnol. Dylai'r dogfennau a gyflwynir nid yn unig ddangos y canlyniadau, ond hefyd ddangos yn glir sut mae canlyniadau ac argymhellion yr adroddiadau ecolegol wedi dylanwadu ar y datblygiad.

Os yw'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar rywogaethau a warchodir mae'n bosibl y bydd angen cael trwydded rhywogaethau a warchodir cyn dechrau ar y datblygiad. Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r corff trwyddedu.

1. Statws y ddogfen a'r camau paratoi

1.1 Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o nodiadau Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA) sy'n ymhelaethu ar bolisïau Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl) mewn fformat sydd â'r nod o arwain proses, dyluniad ac ansawdd datblygiadau newydd. Nid yw nodiadau CCA y Cyngor yn rhan o'r CDLl mabwysiedig.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a mabwysiadu'r Ddogfen gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) wedi hynny, y gall Canllawiau Cynllunio Atodol gael eu trin fel ystyriaeth gynllunio o bwys pan fydd ACLlau, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau.

1.3 Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi arweiniad a chyngor manwl i gynorthwyo aelodau o'r cyhoedd a'r Cyngor, darpar ymgeiswyr a Swyddogion mewn trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio ac, wedi hynny, i benderfynu ar geisiadau cynllunio i'r dyfodol. Mabwysiadwyd yr SPG yma'n ffurfiol gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ar 27/07/2016.

1.4 Gwnaed y ddogfen hon yn unol â'r polisi a'r canllawiau cynllunio a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur, cyhoeddiad BS42040: 2013 y Sefydliad Safonau Prydeinig: Bioamrywiaeth - Cod ymarfer ar gyfer cynllunio a datblygu, a dogfennau canllaw a ddarparwyd gan y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI).

1.5 Nid yw'r adrannau canlynol yn disodli polisi nac arbenigedd gan ecolegydd proffesiynol. Dogfen ganllaw ar yr arferion gorau ydyw. Mae'r ddogfen yn cyfeirio fel arfer at ganiatâd cynllunio, ond bydd y canllawiau hefyd yn berthnasol i geisiadau sy'n ceisio caniatâd ar gyfer adeilad rhestredig, gwaith sy'n effeithio ar ardaloedd cadwraeth neu waith ar goed sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed (TPO).

2. Cyflwyniad

2.1 Mae'r system gynllunio yn chwarae rhan hollbwysig i warchod natur. Mae galw cynyddol am dir datblygu a newidiadau mewn arferion rheoli tir wedi arwain at achosion cynyddol o golli a darnio cynefinoedd, aflonyddu ar rywogaethau, newidiadau hydrolegol a mwy o bwysau ar yr amgylchedd naturiol.

2.2 Mae bioamrywiaeth yn ystyriaeth o bwys yn y system gynllunio ffurfiol, heb ystyried y ffaith bod y cynefinoedd neu'r rhywogaethau yr effeithir arnynt yn elwa o unrhyw warchodaeth statudol. Gallai'r caniatâd cynllunio gael ei wrthod os na all niwed sylweddol o ganlyniad i'r datblygiad gael ei osgoi, ei liniaru'n ddigonol neu os na ellir digolledu am y niwed hwnnw. Dylech sylwi y bydd methu â chyflwyno i'r Cyngor y wybodaeth a'r arolygon ecolegol y gofynnir amdanynt, ac sydd eu hangen i benderfynu ar y cais cynllunio, hefyd yn arwain at wrthod caniatâd cynllunio.

2.3 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu disgwyliadau'r Cyngor o ran y wybodaeth am fioamrywiaeth sydd i'w chyflwyno gyda chais cynllunio, cwmpas a safonau arolygon ecolegol a gyflwynir; ac mae'n tynnu sylw'n gryno at ddyletswyddau cyfreithiol ychwanegol posibl ar ddatblygwyr o ganlyniad i gael caniatâd cynllunio.

2.4 Bydd lefel y gwaith a'r wybodaeth sy'n ofynnol i asesu cydymffurfiaeth y cynnig â deddfwriaeth gwarchod natur yn dibynnu ar y math o ddatblygiad a'i faint. Er enghraifft; mae cais cynllunio i addasu gofod to yn debygol o fod angen llai o waith arolygu a manylion ecolegol na chais am stad dai newydd yng ngoleuni'r un cyfrifoldebau cyfreithiol.

3. Polisi Cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall

3.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 2.1.2, yn nodi bod yn rhaid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ei fabwysiadu ym mis Mehefin 2013, ac mae'n cynnwys polisïau lleol sy'n berthnasol i gynigion datblygu sy'n debygol o olygu bod angen ystyried yr effeithiau ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol.

3.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn dilyn hynny yn pwysleisio bod yn rhaid i ystyriaethau o bwys fod yn faterion cynllunio; hynny yw, rhaid iddynt fod yn berthnasol i reoli datblygu a defnydd tir er budd y cyhoedd. Mae hefyd yn nodi bod yn rhaid i ystyriaethau o bwys fod yn gysylltiedig â'r datblygiad dan sylw yn rhesymol ac yn deg. Er enghraifft, gallai ystyriaethau o bwys gynnwys sŵn, llygredd neu darfu ar rywogaethau sy'n bresennol ar safle'r cais, neu wrth ymyl.

3.3 Amcan 16 'Ardaloedd Gwarchodaeth' y CDLl yn nodi bod diogelu a gwella'r amgylchedd naturiol yn Sir Ddinbych yn un o amcanion allweddol y Cynllun. Caiff ei gefnogi gan thema'r CDLl 'Gwerthfawrogi

ein Hamgylchedd' (VOE), a thri phrif bolisi: RD 1 'Datblygu Cynaliadwy ac o safon dda', VOE 1 'Ardaloedd Gwarchodaeth Allweddol' a VOE 5 'Gwarchod adnoddau naturiol'. Mae copi o'r tri pholisi wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon.

3.4 Ar wahân i ddeddfwriaeth cynllunio, rhaid i'r ACLl hefyd ystyried bioamrywiaeth fel rhan o'r broses benderfynu oherwydd rhwymedigaethau sy'n deillio o ddeddfwriaeth ryngwladol a chenedlaethol eraill ar gadwraeth natur. Rhaid i ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod yn rhaid i'w cynigion hefyd gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon ac y gallai dyletswyddau pellach godi iddynt o ganlyniad i gael caniatâd cynllunio. Er enghraifft;

- Adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (NERC);
- Rheoliad 61 a 62 o 'Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010';
- Adran 28G o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;
- Adran 11 o Ddeddf Cefn Gwlad 1986;

3.5 Mae erthygl 3 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (GPDO) yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer rhai mathau o ddatblygiadau heb gyflwyno cais i'r awdurdod cynllunio lleol. Os yw datblygwyr yn dymuno defnyddio'r pwerau hyn, dylent fod yn ymwybodol y bydd cydymffurfio â deddfwriaeth cadwraeth natur y tu allan i'r gyfundrefn gynllunio yn dal yn berthnasol.

3.6 Os gwelwyd achos o dorri caniatâd cynllunio a/ neu ddeddfwriaeth gwarchod natur, bydd y Cyngor yn defnyddio pwerau gorfodi dan ddeddfwriaeth cynllunio a throseddau bywyd gwyllt dan Adran 25(2) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), ac yn adroddiad wrth y corff rheoleiddio perthnasol.

3.7 Mae Atodiad 3 yn rhoi crynodeb o'r darpariaethau deddfwriaethol a roddir i safleoedd dynodedig a rhywogaethau a warchodir yn Sir Ddinbych.

4. Cyn cyflwyno cais

4.1 Dylai arolygon ecolegol a gwaith asesu gael ei wneud yn y camau cynnar wrth reoli prosiect er mwyn gallu newid dyluniad, gosodiad neu gynllun y cynnig yn unol â chanlyniadau ac argymhellion. Byddai

canfod cyfyngiadau bioamrywiaeth yn nes ymlaen yn y broses gynllunio yn gallu arwain at lawer o gostau ac oedi.

4.2 Efallai y bydd darpar ymgeiswyr yn dymuno ymgyfarwyddo â'r 'Dull Pum Pwynt' a ddatblygwyd gan Tyldesley, D ar gyfer yr RTPI (gweler y blwch isod) wrth gasglu gwybodaeth ecolegol i baratoi ar gyfer cyflwyno cais cynllunio, ac, felly, helpu i wneud penderfyniadau yn nes ymlaen yn y broses. Mae'n darparu dull systematig o wneud penderfyniadau cynllunio a fyddai'n helpu i gyfrannu at gadwraeth bioamrywiaeth.

4.3 (1) *Gwybodaeth ddigonol*
A ddarparwyd digon o wybodaeth i asesu effaith y datblygiad ar fioamrywiaeth? A fydd yr effaith ar nodweddion bioamrywiaeth unigol yn sylweddol, a beth fydd yr effeithiau? A oes ffynonellau gwybodaeth amgen ar gael i gefnogi'r asesiad?

(2) *Osgoi niwed*
A yw'r holl effeithiau niweidiol ar gynefinoedd a rhywogaethau wedi'u hosgoi lle bynnag a phryd bynnag y bo hynny'n bosibl?

(3) *Lliniaru i leihau niwed na ellir ei osgoi*
Os yw effeithiau niweidiol ar nodweddion bioamrywiaeth yn anochel, a fyddai gosod amodau cynllunio a/ neu rwymedigaethau cynllunio yn helpu gyda chamau lliniaru sy'n ceisio lleihau'r effeithiau hyn neu wneud iawn amdanynt?

(4) *Digolledu i wrthbwyso'r niwed gweddilliol*
Os na all y camau lliniaru neu osgoi leihau ymhellach unrhyw niwed gweddilliol, a all y niwed gael ei wrthbwyso gan unrhyw fesurau digolledu; sef y dewis olaf bob amser? A all amodau cynllunio a/ neu rwymedigaethau cynllunio sicrhau y gweithredir y mesurau digolledu, ac a oes modd eu gorfodi?

(5) *Gorfodi/ Manteision newydd*
Ar wahân i asesu effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth, a gafodd pob cyfle ei archwilio o ran sut allai'r cynnig wella bioamrywiaeth, er enghraifft, drwy greu cynefinoedd? A all mesurau gwella arfaethedig gael eu sicrhau drwy amodau cynllunio a/ neu rwymedigaethau cynllunio?

4.4 Er nad yw datblygiadau o bob math a maint yn gofyn am drafodaeth cyn gwneud cais, mae'n bosibl y bydd darpar ymgeiswyr yn dymuno ceisio cyngor proffesiynol gan ecolegydd cymwys ynghylch y

datblygiad arfaethedig a'r cyfyngiadau bioamrywiaeth posibl a'r cyfleoedd gwella.

4.5 Cyn cyflwyno cais cynllunio, dylai'r darpar ymgeisydd allu:
- canfod a yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio ar fioamrywiaeth ac, os felly, sut;
- canfod pa wybodaeth sydd angen ei chyflwyno gyda'r cais i sicrhau bod gan yr ACLl ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad; a
- (lle bo angen) diwygio'r prosiect a'r cynlluniau i gynnwys y mesurau lliniaru arfaethedig a nodir mewn unrhyw adroddiad neu astudiaeth ecolegol.

5. Cofrestru cais cynllunio

5.1 Os oes gan y datblygiad arfaethedig y potensial i effeithio ar fuddiant cadwraeth bioamrywiaeth, dylai'r cais cynllunio gynnwys gwybodaeth amgylcheddol er mwyn caniatáu i'r awdurdod cynllunio lleol asesu'r effaith. Mae angen gwybodaeth ecolegol ar gyfer cynigion sydd â'r potensial i effeithio ar:
- Safleoedd statudol dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol;
- Rhywogaethau a warchodir yn genedlaethol ac yn Ewropeaidd;
- Safleoedd dynodedig anstatudol, neu rywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth.

5.2 Bydd y mathau canlynol o gynigion datblygu bron yn sicr o gynnwys gwybodaeth ecolegol. Nid yw'r rhestr yn gyflawn er hynny:
- Addasu ysguboriau ac adeiladau;
- Dymchwel adeiladau/ adeiladwaith (gan gynnwys waliau) a thynnu toeau;
- Cwympo coed (gan gynnwys coetir), gwrychoedd a llystyfiant o fath arall gan gynnwys clirio prysgdir;
- Adnewyddu anheddau gwag;
- Addasiadau i doeau, gan gynnwys estyniadau preswyl;
- Yn effeithio ar gyrsiau dŵr a phyllau
- Adeiladu seilwaith – ffyrdd, cynlluniau draenio, systemau trydan a thelathrebu;
- Creu neu wella cynefinoedd.

5.3 Os gwelir bod y wybodaeth ecolegol a gynhwysir yn y cais cynllunio yn annigonol neu'n anfoddhaol er mwyn gwneud penderfyniad, ni chaiff ei gofrestru ('dilysu') gyda'r awdurdod cynllunio lleol.

6. Penderfynu ar geisiadau cynllunio

6.1 Caiff darpar ymgeiswyr eu hatgoffa i roi sylw i ddyheadau bioamrywiaeth y Cyngor ar gyfer gwarchod, adfer a gwella cynefinoedd a rhywogaethau; fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Ddinbych, y Cynllun Rheoli perthnasol ar gyfer cynigion o fewn neu yng nghyffiniau safle Ewropeaidd (gweler gwefan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur [JNCC], www.jncc.defra.gov.uk), neu wybodaeth a ddarperir gan Wasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych ar gyfer gwarchodfeydd natur neu safleoedd bywyd gwyllt lleol.

6.2 Bydd yr holl ddogfennau'n cael eu hystyried o safbwynt cymhwysedd proffesiynol a methodolegau cymhwysol, asesiad o'r effeithiau tebygol ar fioamrywiaeth, ac, yn hollbwysig, sut rhoddwyd sylw i argymhellion a'r camau gweithredu arfaethedig yn nyluniad, gosodiad, cynllun neu reolaeth y datblygiad. Os yw'r ymgeisydd arfaethedig o'r farn na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith ar fioamrywiaeth, er enghraifft, oherwydd natur y cynnig neu'r lleoliad, mae angen i hyn hefyd gael ei esbonio yn y datganiad bioamrywiaeth.

6.3 Dylai adroddiadau a dogfennau ecolegol gynnwys, fan leiaf, y wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad byr o'r datblygiad arfaethedig;
- Gwybodaeth am safle'r cais: maint, lleoliad, defnydd tir a'r adeiladwaith presennol;
- Disgrifiad o sut allai'r datblygiad arfaethedig effeithio ar fioamrywiaeth a'r mesurau a gynigir i sicrhau bod yr effeithiau niweidiol yn cael sylw a bod y cyfleoedd i wella yn cael eu defnyddio i'r eithaf;
- Crynodeb o ganlyniadau a chanfyddiadau'r holl arolygon ecolegol a gyflwynwyd a'r ymarferion casglu data eraill; a
- Chydnabyddiaeth ynglŷn â sut cafodd argymhellion unrhyw adroddiadau ecolegol eu cynnwys yn y datblygiad arfaethedig; os na weithredwyd yr argymhellion dylid esbonio pam.

6.4 Mae gwybodaeth bellach am adroddiadau ac arolygon ecolegol, amseroedd arolygu, rhywogaethau a warchodir a safleoedd i'w gweld yn yr Atodiadau.

6.5 Ar ôl i gais cynllunio gael ei gofrestru, bydd y Cyngor yn rhyddhau pob dogfen a gyflwynwyd fel eu bod ar gael i'r cyhoedd, ymgyngoreion statudol, a gwasanaethau eraill y Cyngor am gyfnod o 21 diwrnod. Os

bydd gwybodaeth ecolegol wedi ei chyflwyno, caiff Swyddog Bioamrywiaeth ac Ecoleg y Cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru eu gwahodd i roi sylwadau fan leiaf. Gallai ymatebion hefyd ddod i law gan grwpiau ddiddordeb cadwraeth natur eraill yn dibynnu ar y cynefin neu'r rhywogaeth, er enghraifft Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar.

6.6 Bydd pob datblygiad yn cael ei asesu yn erbyn y polisi cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall (gweler Atodiadau 1 a 3).

6.7 Prif amcan penderfynu ar gais cynllunio yw gweld a yw'r cynigion yn cydymffurfio â pholisi a rhwymedigaethau statudol perthnasol eraill. Fel rhan o'r broses mae'n hanfodol craffu ar y sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys gwybodaeth ecolegol a gyflenwir. Bydd y materion canlynol yn cael eu harchwilio:

- a yw'n debygol o effeithio ar fioamrywiaeth ac a yw'r effeithiau posibl oll wedi'u disgrifio'n ddigonol;
- a yw'r cynnig yn seiliedig ar ddata maes ecolegol diweddar a digonol sy'n profi'n glir y casgliadau y daethpwyd iddynt a'r argymhellion a wnaed;
- bod y dulliau ecolegol yn unol â'r canllaw arfer da a bod unrhyw wyro yn cael eu hamlygu, yn ddilys, a bod modd eu cyfiawnhau;
- o ran mesurau lliniaru arfaethedig a ydynt yn debygol o fod yn effeithiol, yn briodol i'r effeithiau niweidiol a nodwyd, yn dechnegol ymarferol, bod sicrwydd ynglŷn â'u cyflawni, a phriodoldeb defnyddio amodau cynllunio a / neu rwymedigaethau cynllunio.

6.8 Gallai caniatâd cynllunio gael ei wrthod os gwelwyd bod y wybodaeth ecolegol yn annigonol neu'n anfoddhaol.

6.9 Os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu rhoi caniatâd cynllunio, mae'n debygol y bydd amodau cynllunio neu ymrwymiadau cynllunio wedi'u cynnwys yn y nodyn penderfynu. Maent yn ofynnol i sicrhau bod y mesurau a nodwyd i warchod a/ neu wella bioamrywiaeth ar y safle neu yn y cyffiniau yn cael eu cyflawni a, lle bo angen, eu bod yn cael eu cynnwys yn y datblygiad. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:

- ceisio cymeradwyaeth neu drwyddedau neu fanylion pellach wrth i'r gwaith o weithredu'r cynllun fynd rhagddo, o bosibl mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru;
- y gwaith gofynnol i gael ei wneud yn unol â'r dulliau gweithio a nodir;

- gwneud cynllun rheoli amgylcheddol;
- osgoi niwed, er enghraifft, s□n, i'r amgylchedd yn ystod y cyfnod adeiladu;
- mynnu bod rhywogaethau goresgynnol ar safle'r cais yn cael eu trin;
- gosod systemau monitro gyda'r angen o bosibl i addasu'r datblygiad yn unol â data ecolegol a geir o'r newydd; neu
- creu a chynnal unrhyw ardaloedd digolledu sy'n ofynnol.

6.10 Mewn rhai amgylchiadau ar safleoedd y gwyddys bod yno boblogaethau o fadfallod dŵr cribog, neu safleoedd agos at boblogaethau o'r fath, efallai na fydd yn ymarferol digolledu'n ddigonol ar y safle. Mewn achosion o'r fath, bydd digolledu oddi ar y safle yn cael ei ystyried, a gallai hwn fod ar ffurf swm gohiriedig. Mae manylion pellach am ddatblygiadau sy'n effeithio ar Fadfallod Dŵr Cribog a'u cynefinoedd i'w gweld yn Atodiad 5.

7. Gweithredu'r cais cynllunio

7.1 Cyn gweithredu'r caniatâd cynllunio, rhaid sicrhau bod yr holl amodau cyn dechrau a restrir yn y nodyn penderfyniad yn cael eu bodloni. Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio ar rywogaethau a warchodir, er enghraifft aflonyddu neu ddal, rhaid cael trwydded rhywogaethau oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru neu Lywodraeth Cymru cyn gwneud y gwaith. Gall methu â chael trwydded arwain at achos troseddol.

7.2 Os gwelwyd achos o dorri caniatâd cynllunio a/ neu ddeddfwriaeth gwarchod natur, bydd y Cyngor yn defnyddio pwerau gorfodi dan ddeddfwriaeth cynllunio a throseddau bywyd gwyllt dan Adran 25(2) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), ac yn adrodd wrth y corff rheoleiddio perthnasol.

8. Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac Asesiad Rheoliadau cynefinoedd

8.1 Mae'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) yn broses a fwriedir i ganfod ac asesu effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol datblygiad arfaethedig er mwyn arwain y broses gwneud penderfyniadau. Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn rhwym wrth Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (fel y'u diwygiwyd).

8.2 Ni fydd AEA ond yn berthnasol i gyfran fechan o brosiectau sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Dan Reoliadau AEA, mae

datblygiadau'n syrthio i wahanol gategorïau: rhaid gwneud Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gyda'r holl gynigion datblygu y gellir eu dosbarthu'n ddatblygiadau 'Atodlen 1', tra bod angen i ddatblygiadau 'Atodlen 2' gael eu sgrinio am effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol. Fodd bynnag, caiff y Cyngor ddefnyddio'i ddisgresiwn i ofyn am AEA ar gyfer cais cynllunio am ddatblygiad 'Atodlen 2'. Mae barn sgrinio AEA y datblygiad arfaethedig ar gael oddi wrth y Cyngor os gofynnwch.

8.3 Proses i sicrhau nad yw safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol yn dioddef niwed o ganlyniad i gynlluniau a phrosiectau yw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol asesu a yw cais datblygu yn debygol o gael effaith niweidiol ar nodweddion cymhwyso safle Ewropeaidd, h.y. Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) neu Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), yn unol â gofynion Rheoliad 61 a 62 o 'Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010'. Mae gofyn i safleoedd Ramsar, a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar ar Wlypdiroedd 1971, gael eu hasesu yn yr un modd.

8.4 Fe wnaeth y Cyngor Arfarniad o'r Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r ddogfen nid yn unig yn sgrinio pob safle a ddyrannwyd yn y Cynllun ond mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ar safleoedd a rhywogaethau Ewropeaidd a warchodir, gan gynnwys amcanion cadwraeth, yn Sir Ddinbych neu'r cyffiniau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn dileu'r angen i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân gael ei wneud ar gynigion cynllunio.

9. **Manylion cysylltu**

Cyngor Sir Ddinbych
Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd
Rheolaeth Datblygiad
Ffordd y Ffair, Dinbych
LL16 3RJ
Ffon: 01824 706727
Ebost: planning@denbighshire.gov.uk

Cyngor Sir Ddinbych
Swyddog Bioamrywiaeth
Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
Parc Gwledig Loggerheads
CH7 5LH
Ffon: 01352 810614
Ebost: countryside@denbighshire.gov.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru
Llwyn Brain, Ffordd Penlan
Parc Menai
Bangor, Gwynedd
LL57 4DE
Ffon: 03000653000
Ebost:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Ymddiriedolaeth Gogledd Cymru
Prif swyddfa
376 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
LL57 1YE
Ffon: 01248 351541
Ebost: nwt@wildlifetrustswales.org

Royal Society for the Protection of Birds
North Wales Office
Uned 14, Llys Castan
Ffordd Y Parc, Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FH
Ffon: 01248 672850

Atodiad 1 – Polisïau Cynllunio Lleol

A1.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl) yn cynnwys y polisïau canlynol sy'n cynnwys meini prawf sy'n cyfeirio'n benodol at ystyriaethau ynglŷn â'r amgylchedd naturiol a/ neu fioamrywiaeth.

A1.2 <u>Polisi RD 1 - Datblygiad cynaliadwy ac o safon dda</u>

Caiff cynigion datblygu eu cefnogi o fewn ffiniau datblygu cyn belled â bod yr holl feini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

i) Parchu'r safle a'r ardal o gwmpas o ran lleoliad, cynllun, maint, ffurf, cymeriad, dyluniad, deunyddiau, agwedd, microhinsawdd a dwysedd defnydd tir/adeiladau a'r gofod rhwng ac o amgylch adeiladau; ac yn
ii) Gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r tir trwy gyflawni dwysedd o 35 annedd o leiaf fesul hectar ar gyfer datblygiad preswyl (oni fo amgylchiadau lleol sy'n pennu dwysedd is).
iii) Yn parchu a lle'n bosibl yn gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol lleol; ac
iv) Nad yw'n effeithio'n annerbyniol ar olygfeydd cyhoeddus amlwg i mewn i, allan o, neu ar draws unrhyw anheddiad neu ardal o gefn gwlad agored; ac
v) Yn ymgorffori tirwedd bresennol neu nodweddion eraill, yn cymryd i ystyriaeth gyfuchliniau a newidiadau mewn lefelau a nenlinellau amlwg; ac
vi) Nad yw'n effeithio'n annerbyniol ar fwynderau trigolion lleol, defnyddwyr eraill tir ac eiddo neu nodweddion yr ardal trwy rinwedd mwy o weithgaredd, aflonyddiad, sŵn, llwch, mygdarthau, sbwriel, draeniad, llygredd golau ac ati ac yn darparu safonau mwynderau boddhaol ynddo'i hunan; ac
vii) Yn darparu mynediad diogel a hwylus i bobl anabl, cerddwyr, beicwyr, cerbydau a cherbydau argyfwng ynghyd â lle parcio digonol, wasanaethau a lle i droi. Dylai'r cynigion hefyd ystyried effeithiau ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy ehangach o gwmpas y safle; ac
viii) Nad yw'n cael effaith annerbyniol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol o ganlyniad i dagfeydd, perygl a niwsans yn deillio o draffig a gynhyrchir ac yn ymgorffori mesurau rheoli / tawelu traffig lle bo angen hynny a lle'i fod yn briodol. Bydd angen asesiad cludiant a chynllun teithio lle'n briodol; ac

ix) Yn rhoi sylw i gyfleusterau a gwasanaethau cyhoeddus presennol a'u digonolrwydd; ac
x) Nad yw'n peryglu tir neu adeiladau a warchodwyd i ddibenion eraill, neu'n andwyo datblygu a defnyddio tir cyffiniol; ac
xi) Yn bodloni ystyriaethau amgylcheddol ffisegol neu naturiol mewn perthynas â sadrwydd tir, draeniad a thebygolrwydd llifogydd, cyflenwad dŵr a thynnu dŵr o gwrs dŵr naturiol; ac yn
xii) Cymryd i ystyriaeth ddiogelwch a sicrwydd personol a chymunedol o ran dyluniad a chynllun y datblygiad a mannau cyhoeddus/preifat ac yn rhoi ystyriaeth i'r goblygiadau o ran trosedd ac anhrefn; ac
xiii) Yn ymgorffori mesurau tirweddu addas, gan gynnwys lle'n briodol, driniaeth tirweddu caled a meddal, creu amddiffyniad coridorau gwyrdd a gleision, tirweddu aeddfed a threfniadau ar gyfer eu cynnal yn y dyfodol. Dylai gwaith tirweddu greu amgylchedd braf, cynaliadwy a chyfoethog o ran bioamrywiaeth sy'n amddiffyn a gwella nodweddion presennol a hefyd yn creu nodweddion newydd ac ardaloedd o le agored sy'n adlewyrchu cymeriad lleol a theimlad o le; ac
xiv) Yn rhoi sylw i gynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff.

A1.3 <u>Polisi VOE 1 – Ardaloedd gwarchodaeth allweddol</u>

Dylid gwarchod yr ardaloedd canlynol rhag datblygiad a fyddai'n eu heffeithio'n niweidiol. Dylai cynigion datblygu gynnal a, lle bo modd, wella'r ardaloedd hyn o ran eu nodweddion, arbenigrwydd lleol a gwerth i gymunedau lleol yn Sir Ddinbych:

- Safleoedd a ddynodwyd yn statudol ar gyfer cadwraeth natur;
- Ardaloedd lleol wedi eu dynodi neu eu hadnabod oherwydd eu gwerth tirwedd naturiol neu fioamrywiaeth;
- Safleoedd o dreftadaeth adeiledig, a
- Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol.

A1.4 <u>Polisi VOE 5 – Gwarchod adnoddau naturiol.</u>

Yn achos cynigion a all gael effaith ar rywogaeth a warchodir neu safleoedd dynodedig cadwraeth natur, bydd angen eu cefnogi gan ddatganiad bioamrywiaeth sy'n rhoi ystyriaeth i ddyhead bioamrywiaeth y Sir ar gyfer cadwraeth, gwella ac adfer cynefinoedd a rhywogaethau.

Lle mae manteision cyffredinol datblygiad yn uwch na buddiannau cadwraeth safle natur a warchodir yn lleol, dylai mesurau lliniaru a

gwella o fewn neu'n cyffinio'r safleoedd hyn fod yn rhan annatod o'r cynllun.

Os oes angen, dylid gweithredu mesurau sydd eu hangen i liniaru effeithiau andwyol ar nodweddion cymwysedig safleoedd a ddynodwyd yn statudol cyn cychwyn ar y datblygiad. Caiff mesurau sydd eu hangen i wrthbwyso unrhyw effeithiau andwyol tebygol eu sicrhau gydag amodau cynllunio a/neu ymrwymiadau cynllunio.

Ni roddir caniatâd cynllunio ar gyfer cynigion datblygu sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i nodweddion cymwysedig safleoedd cadwraeth natur a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol, cynefinoedd blaenoriaeth, rhywogaethau blaenoriaeth, geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol, neu safleoedd sydd dan fygythiad.

Atodiad 2 – Arolygon ac adroddiadau ecolegol

A2.1 Dylai adroddiadau ecolegol gael eu paratoi yn unol â'r canllawiau a nodir yng Nghyfres Canllawiau Technegol y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM) 'Guidelines for Ecological Report Writing (2015)'.

A2.2 Bydd y math o arolwg ecolegol a'i gwmpas yn dibynnu ar y cynnig datblygu a'r nodweddion ecolegol sy'n debygol o fod yn bresennol ar safle'r cais ac yn yr ardal gyfagos. Os yw darpar ymgeiswyr yn ansicr a yw dadansoddiad pen desg neu arolwg maes yn ddigonol i roi sylw i fioamrywiaeth, fe'u cynghorir i gysylltu â biolegydd proffesiynol neu grŵp diddordeb bywyd gwyllt.

A2.3 Dylai arolygon maes gael eu cynnal ar adeg briodol o'r flwyddyn. Mae calendr canllaw yn dangos yr amseroedd gorau posibl ar gyfer arolygon wedi ei gynnwys yn Atodiad 4. Mae'r Cyngor yn darparu rhestr o ymgynghorwyr ecolegol cymwys ar ei wefan. Nid oes raid ichi ddewis unrhyw un o'r rhestr hon, fodd bynnag, mae angen i unrhyw ymgynghorydd ecolegol a gyflogir fod â chymwysterau addas, meddu ar y trwyddedau sy'n ofynnol ar gyfer y rhywogaethau a warchodir (lle bo'n berthnasol) a dilyn safonau'r diwydiant. Dolen gyswllt i weld yr ymgynghorwyr:
https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswyliwr/rheoliadau-cynllunio-ac-adeiladu/cynllunio/bioamrywiaeth.aspx

A2.4 Dylai data arolygon a gasglwyd i gefnogi'r cais cynllunio fod ar gael i Cofnod - Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru, sef y ganolfan cofnodion lleol yng Ngogledd Cymru. Mae'r sefydliad nid-er-elw yn casglu gwybodaeth am fioamrywiaeth mewn cronfa ddata ganolog ac yn eu darparu i bartïon â diddordeb ar gais (www.cofnod.org.uk).

A2.5 <u>Dylai'r wybodaeth mewn arolygon ac adroddiadau ecolegol gynnwys</u>

- Crynodeb anhechnegol o'r canfyddiadau;
- Cyflwyniad yn disgrifio'r cynnig gyda chynllun neu fap i raddfa gan gynnwys cyfeirnod grid;
- Pwrpas ac amcanion rhag-werthusiad ecolegol neu arolygon cyflawn, manwl;
- Cymwysterau a chymhwysedd y syrfëwr;
- Dyddiad(au) pan wnaed yr arolwg/arolygon a phryd y paratowyd adroddiad yr arolwg;
- Union rannau o'r tir a'r adeiladau y mae'r arolwg yn berthnasol iddynt ar gynllun;
- Canlyniadau gwaith treillio data pen desg, gan gynnwys chwilio am ddata gan Cofnod os oes angen, a chymhwyso'r data hyn i arolygon ac asesiadau;
- Dulliau arolygon maes yn seiliedig ar ganllawiau arferion da cyhoeddedig;

- Canlyniadau'r arolwg gyda manylion am gynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion sy'n bresennol (gan gynnwys rhywogaethau ymledol anfrodorol), yn dangos y cyflwr presennol, dosbarthiad ac amlder;
- Dadansoddiad a dehongliad o'r canlyniadau;
- Nodyn am unrhyw waith arolygu pellach sydd angen ei wneud;
- Argymhellion a manylion yr holl fesurau osgoi, lliniaru, digolledu a gwella;
- Dangos cydymffurfiaeth â'r polisïau datblygu a'r rhwymedigaethau statudol perthnasol ynghyd ag unrhyw wyro oddi arnynt;
- Mesurau diogelu ar y safle ar ôl datblygu, megis monitro, rheoli a chynnal y safle/ cynefin yn y tymor hir pryd bynnag y bo hynny'n ofynnol;
- Nodi peirianweithiau i sicrhau ymrwymiad a chyflawni;
- Amserlen a manylion y gwaith arfaethedig a sut mae'n cydymffurfio â mesurau bioamrywiaeth.

Addaswyd o Atodiad H i BS 42042:2013

A2.6 I warchod cynefinoedd a rhywogaethau lleol, rhaid i adroddiadau ecolegol gynnwys gwybodaeth am unrhyw dystiolaeth a ganfuwyd, gan gynnwys esboniad o oblygiadau'r arolwg, fod un o'r gweithgareddau canlynol wedi digwydd ar safle'r cais cyn neu'n fuan ar ôl yr arolwg maes i gefnogi'r cynnig:

- Tynnu ymaith neu reoli llystyfiant, gan gynnwys coeden;
- Addasu neu golli nodweddion bioamrywiaeth eraill, megis gwrychoedd, pyllau, ffosydd neu adeiladau a nodweddion gwerthfawr i warchod rhywogaethau;
- Rheoli chwyn neu rywogaethau eraill;
- Ailgyflwyno neu roi'r gorau i bori neu dorri.

A2.7 Rhaid i bresenoldeb rhywogaethau goresgynnol neu anfrodorol (planhigion ac anifeiliaid) gael ei gofnodi yn yr arolwg ecolegol. Os bydd rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn bresennol ar safle, rhaid nodi a fydd cael gwared ohonynt yn bwysig, yn seiliedig ar yr effaith mae'n ei chael a'r cydbwyso rhwng adnoddau ac effeithiolrwydd. Mae darpariaethau cyfreithiol yn cael eu darparu yn y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, fel y'i diwygiwyd, a Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, fel y'i diwygiwyd. Rhaid i rai planhigion, megis, Clymog Japan, rhaid eu gwaredu mewn safleoedd tirlenwi trwyddedig. Dylai Bioddiogelwch gael ei ystyried hefyd.

A2.8 Rhaid i'r bwriad i ddefnyddio mesurau osgoi, lliniaru neu ddigolledu i wrthbwyso effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth gael ei brofi fesul cam - mae'n ddull dilyniannol. Er gwaethaf y ffaith mai'r prif nod yw osgoi unrhyw effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth, efallai yr hoffai darpar ymgeiswyr ystyried gweithredu mesurau lliniaru a sut gall y gweithredu gael ei sicrhau drwy'r system gynllunio. Mesurau digolledu yw'r dewis olaf i wneud iawn am unrhyw niwed gweddilliol sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig.

A2.9 Os yw'r ymgeisydd arfaethedig yn bwriadu defnyddio mesurau digolledu, dylai'r wybodaeth ecolegol i gefnogi'r cais egluro pam nad yw mesurau osgoi a lliniaru yn ymarferol a beth yw'r rhesymau pennaf am adael i niwed gweddilliol ddigwydd ar safle'r cais.

A2.10 Bydd cynnwys, maint a lleoliad y mesurau digolledu i'w darparu yn dibynnu ar raddau a maint y difrod a achoswyd ar y nodwedd bioamrywiaeth dan sylw. Dylai pob mesur fod wedi'i sefydlu ac ar waith cyn i unrhyw effeithiau niweidiol disgwyliedig ddigwydd. Byddai'n ddoeth trafod y manylion gyda Swyddog Ecoleg a Bioamrywiaeth y Cyngor neu, lle bo angen, Cyfoeth Naturiol Cymru cyn cyflwyno'r cais cynllunio.

A2.11 Mewn rhai amgylchiadau ar safleoedd y gwyddys bod yno boblogaethau o fadfallod dŵr cribog, neu safleoedd agos at boblogaethau o'r fath, efallai na fydd yn ymarferol digolledu'n ddigonol ar y safle. Mewn achosion o'r fath, bydd digolledu oddi ar y safle yn cael ei ystyried, a gallai hwn fod ar ffurf swm gohiriedig. Mae manylion pellach am ddatblygiadau sy'n effeithio ar Fadfallod Dŵr Cribog a'u cynefinoedd i'w gweld yn Atodiad 5.

A2.12 Dylid ceisio mesurau gwella bioamrywiaeth o'r dechrau a drwy gydol cam rheoli a gweithredu'r prosiect.

Atodiad 3 - Rhywogaethau a safleoedd a warchodir yn Sir Ddinbych

A3.1 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r safleoedd a warchodir a leolir yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn Sir Ddinbych a'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n eu gwarchod.

Gwarchodaeth	Dynodiad	Pwysigrwydd	Deddfwriaeth Allweddol	Safleoedd
Statudol	Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)	Rhyngwladol	Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010) yn trosi Cyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar yr UE yn gyfraith yn y DU	Coedwigoedd Dyffryn Alyn
				Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd
				Aber Afon Dyfrdwy
				Coedwigoedd Dyffryn Elwy
				Llwyn
				Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid y Bala
	Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)	Rhyngwladol		Berwyn
				Bae Lerpwl
				Aber Afon Dyfrdwy
Statudol	Safle Ramsar		Confensiwn Ramsar ar Wlypdiroedd o bwysigrwydd Rhyngwladol	Aber Afon Dyfrdwy
	Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	Cenedlaethol	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)	Berwyn
				Bryn Alyn
				Caeau Pen y Coed
				Cefn Rofft
				Chwarel Pant Glas
				Coedwig Cil-y-Groeslwyd, Craig Adwy-wynt a Chraigddwy-wynt
				Chwarel Clogau
				Coed Nant Mawr
				Coedydd ac Ogofau Elwy a Meirchion Coedydd Dyffryn
				Alwen
				Coed Crest Mawr
				Chwarel Coedwig Cynwyd
				Aber Afon Dyfrdwy
				Dinas Bran
				Ffynnon Bueno ac Ogofau Cae Gwyn
				Graig Fawr

Gwarchodaeth	Dynodiad	Pwysigrwydd	Deddfwriaeth Allweddol	Safleoedd

Statudol	Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	Cenedlaethol	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)	Chwarel Graig
				Graig, Llanarmon-yn-iâl
				Twyni Gronant a Talacre Warren
				Hendre Bach
				Gweundir Llandegla
				Llwyn
				Maes Hiraddug
				Chwareli Moel Hiraddug
				Mwyngloddfa Pennant
				Mynydd Hiraethog
				Chwarel Penarth
				Bryniau Prestatyn
				Rhiwabon / Mynyddoedd Llantysilio a Minera
	Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR)	Cenedlaethol	Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	Y Berwyn
				Gweundir Hafod Elwy
	Gwarchodfa Natur Leol (LNR)	Lleol	Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949)	Moel Findeg
				Twyni Gronant
				Pwll Cae Brics
				Pwll Rhuddlan
Anstatudol	Safle Bywyd Gwyllt Sirol	Lleol	Amherthnasol	Mae yna 248 o safleoedd i'w cael yn Sir Ddinbych. Cysylltwch â Swyddog Ecoleg a Bioamrywiaeth y Sir neu Cofnod am fwy o fanylion.

A3.2 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r prif rywogaethau a warchodir yn Sir Ddinbych a'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n eu gwarchod. Mae rhagor o wybodaeth am gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth i'w gweld yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Ddinbych, sydd ar gael ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth yn: ukbars.defra.gov.uk; mae mwy o wybodaeth hefyd ar gael ar wefan

Cyngor Cefn Gwlad Sir Ddinbych: *http://www.denbighshirecountryside.org.uk/bioamrywiaeth*

Gwarchodaeth	Dynodiad	Pwysigrwydd	Deddfwriaeth Allweddol
Statudol	Madfall Ddŵr Gribog	Rhyngwladol	Cyfarwyddeb Cynefinoedd y CE; Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010; Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)
	Ystlumod (pob rhywogaeth)		
	Dyfrgi		
	Pathew		
	Madfall y tywod		
	Llyffant y twyni		
	Llyriad y dŵr arnofiol (Luronium natans)		
	Dolffiniaid (pob rhywogaeth)		
Statudol	Llamhidyddion (pob rhywogaeth)		
	Llygoden bengron y dŵr	Cenedlaethol	Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)
	Wiwer goch		
	Bele'r coed		
	Pob ymlusgiad (neidr ddefaid, gwiber, madfall, neidr y gwair)		
	Pob amffibiad (gwerthu'n unig wedi'i wahardd) (broga cyffredin, llyffant dafadennog, madfall ddŵr balfog, madfall ddŵr gyffredin)		
	Tylluan wen		
	Pob aderyn nythu		
	Mochyn daear		Deddf Gwarchod Moch Daear 1992
	Ceirw		Deddf Ceirw 1991
	Morloi	Cenedlaethol	Deddf Cadwraeth Morloi 1970
An-Statudol	Rhywogaethau pwysig iawn o ran diogelu (Rhestr Adran 42) – ceir dros 1,000. Mae'r rhestr gyflawn i'w gweld ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru		Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006
	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol	Lleol	Amherthnasol

	(LBAP) rhywogaethau â blaenoriaeth yn lleol – gweler ukbars.defra.gov.uk		

Atodiad 4 – Arweiniad ar yr amser gorau posibl ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau penodol

Cynefinoedd / Rheoliadau	Ionawr	Chwefror	Mawrth	Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr
Cynefinoedd / Llystyfiant												
Moch Daear												
Ystlumod												
Adar												
Pathewod												
Madfallod Dŵr Cribog												
Pysgod												
Llyfant y Twyni												
Dyfrgwn												
Bele'r Coed												
Wiwerod Coch												
Ymlusgiaid												
Llygod pengrwn y dŵr												
Misglod perlog yr afon												

Allwedd i'r lliwiau:	Dim arolygu	Cyfnod arolygu cyfyngedig	Cyfnod Arolygu Gorau posibl

Addaswyd o'r Biodiversity Planning Toolkit (www.biodiversityplanningtoolkit.com, cyrchwyd 12.08.2015

Atodiad 5 - Datblygiadau sy'n effeithio ar fadfallod dŵr cribog a'u cynefinoedd

Cefndir

A5.1 Mae madfallod dŵr cribog i'w cael mewn rhannau helaeth o'r Sir, yn enwedig yn y gogledd. Mae'r anifeiliaid eu hunain, yn ogystal â'u lleoedd magu a gorffwyso, wedi'u gwarchod yn gyfreithiol. Ar safleoedd lle canfyddir madfallod dŵr cribog neu lle maent yn debygol o fod yn bresennol, ni chaiff caniatâd cynllunio ond ei roi os gellir dangos na cheir effaith niweidiol ar 'Statws Cadwraethol Ffafriol' y boblogaeth leol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ymgeiswyr allu dangos y bydd eu cynigion datblygu yn cael effaith niwtral neu gadarnhaol gyffredinol ar fadfallod dŵr cribog.

Osgoi, lliniaru a digolledu

A5.2 Fel y disgrifir yn y brif ddogfen; paragraffau 4.5, 6.3; ac Atodiad 2 paragraff A2.8 dylid cymryd mesurau osgoi, lliniaru a digolledu i wrthbwyso'r effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth fesul cam.

A5.3 Os yw datblygiadau'n effeithio ar safle magu neu orffwyso hysbys, yna bydd yn rhaid i gynefin newydd, priodol gael ei greu cyn dinistrio'r cynefin dyfrol neu ddaearol gwreiddiol o dan drwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

A5.4 Os na fydd datblygiadau'n effeithio ar safleoedd madfallod dŵr cribog hysbys, ond yn hytrach gynefinoedd o ansawdd amrywiol wrth ymyl neu'n agos i safleoedd hysbys, efallai y bydd angen dull gweithredu gwahanol. Mae'r tebygolrwydd bod safle yn safle hysbys ar gyfer madfallod dŵr cribog yn seiliedig ar ansawdd y cynefin a'i agosrwydd at bwll magu. Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd yn bosibl neu'n foddhaol gwrthbwyso'r effeithiau niweidiol ar fadfallod dŵr cribog ar safle'r datblygiad. Mewn achosion o'r fath, mae swm gohiriedig i ddarparu cynefin digolledu ar gyfer madfallod dŵr cribog oddi ar y safle yn opsiwn.

Effaith y Datblygiad	**Datblygiad Mawr**	**Datblygiad Bach**
	Amlinell/Materion a Gymeradwyir/ Mwynau a Gwastraff/ ayb.	**Hyd at 10 annedd Estyniad/ Ystafell Haul/ Garej**
Yn effeithio'n uniongyrchol ar safle madfallod dŵr cribog hysbys	Mae angen darparu cynefin newydd tebyg am ei debyg i gyflawni'r un diben cyn dinistrio'r cynefin presennol, e.e. pwll magu. Mae hyn er mwyn sicrhau bod 'statws cadwraethol ffafriol' y boblogaeth yn cael ei gynnal.	

O fewn 250m i byllau magu madfallod dŵr cribog hysbys	Lliniaru am golli math o gynefin ar sail debyg at ei debyg - *Gweler y tabl costau rheoli*	Cymryd Camau Osgoi Rhesymol i atal niwed i'r madfallod dŵr cribog. Mae hyn yn dibynnu ar addasrwydd y safle os yw'n wael e.e. llawr caled/ glaswelltir amwynder yna mae'n bosibl y byddai nodyn i'r ymgeisydd yn ddigon.
C1 - 250-500m *Cyfeirio at wybodaeth leol, Cofnod a "mapiau tebygolrwydd"*	Camau lliniaru yn berthnasol i golli math o gynefin ar sail debyg at ei debyg/ 50% - *Gweler y tabl costau rheoli*	Bydd nodyn i'r ymgeisydd yn ddigon yn gyffredinol
D1 - dros 500m	Camau lliniaru ddim yn ofynnol fel arfer oni effeithir ar gynefinoedd cysylltiedig allweddol	amh

Swm Gohiriedig i Ddigolledu Oddi ar y Safle a/neu Reoli Cynefin

A5.5 Bydd swm gohiriedig yn cael ei sicrhau drwy Gytundeb Adran 106. Y Cyngor a'r datblygwr fydd yn cytuno ar y gwerth. Sylwer mai ffigyrau dangosol yn unig sydd yn y tablau isod. Maent wedi cael eu cynnwys at ddibenion enghreifftiol i roi arweiniad i ddatblygwyr.

A5.6 COSTAU SAFONOL Heb gynnwys paratoi trwyddedau, mesurau osgoi rhesymol, archwilio cydymffurfiaeth ayb *; Mae'r costau parhaus yn rhai "am byth", sy'n cael ei ddiffinio fel 25 mlynedd

* - Ffynhonnell: Costau Tribiwnlys Tir Hafod TEP 2006 gyda llog yn gynwysedig ar gyfer rheoli hirdymor a chostau rheoli diweddar gan Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych

Cydran	Unwaith ac am byth	Parhaus	Cost £/ha	Nodiadau
1. Caffael Tir	✓		£3750 tir fferm o ansawdd gwael £7500 tir fferm o ansawdd da	Dosbarthiad tir yn unol â chategorïau Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
2. Creu Cynefin 2.1. Pyllau 10x10m o faint o leiaf	✓		£2500 (gyda leiner) – dau yr hectar	(£1250 gyda leiner TEP) (2 yr ha)
2.2. Plannu	✓		£1.50 y planhigyn (=£300/ha) +£100/dydd	Yn cynnwys polion a chynnal a chadw (uchafswm o 25% yr ha = 200 planhigion) Plannu 200 bob dydd
2.3. Plannu dolydd/ Glaswelltir	✓		£1000/ha £250/dydd	Hadau blodau gwyllt (ddim bob amser yn addas) Digroeni/hau â thractor ayb
2.4 Gaeafdy (50m^2)	✓		£100	1 y pwll Costau is os yw'r deunyddiau ar gael.

2.5 Ffens newydd	✓		£7/m	400m/ha (£2800)
3. Rheoli 3.1 Rheoli'r pwll		✓	£100/blwyddyn /pwll	£45/blwyddyn/pwll – TEP Cylch 5 mlynedd i reoli'r pwll ac ymyl y pwll (5m) ee rheoli prysgwydd.
3.2 Coed/ gwrychoedd wedi'u plannu		✓	£600/ blwyddyn /ha	Costau cynnal a chadw CNC ydy £1000/ha ar gyfer blwyddyn 2 a 3 yn unig.
3.3 Glaswelltir –torri unwaith y flwyddyn		✓	£480/ blwyddyn	
3.4 Cynnal y ffens		✓	£1.30/m/ blwyddyn neu £112/ blwyddyn	400m/ha – adnewyddu'r ffens ar gylch 12-15 mlynedd.
4. Monitro a Goruchwylio		✓	*£200/safle/*	2 ymweliad y flwyddyn
5. Gwaith Warden		✓	£150/diwrnod	1-4 diwrnod/mis (yn dibynnu ar faint /gofynion y safle). Yn cynnwys gorbenion/cerbyd/ cynnal a chadw.
6. Wrth gefn		✓	£2500/pwll Cost fel 2.1	Cyfandaliad yn seiliedig ar y gwaith o greu'r pwll a thynnu'r pysgod oddi yno.

Opsiynau rheoli hirdymor

Opsiwn	Math	Manteision	Anfanteision
1	Trosglwyddo'r tir a'r adnoddau i'r 3ydd Sector (NWWT, NEWW, ARC)	Arbenigedd lleol neu arbenigol. Sgiliau rheoli ystadau.	Problem bosibl o ran adnoddau os na cheir darpariaeth ddigonol.
2	Trosglwyddo tir ac adnoddau i ALl e.e. Gwasanaeth Cefn Gwlad	Arbenigedd lleol neu arbenigol. Sgiliau rheoli ystadau.	Problem bosibl o ran adnoddau os na cheir darpariaeth ddigonol**.** Risg o reoli'n cael ei gwestiynu. Cyllid deuol posibl (treth gyngor a thâl gwasanaeth).
3	Tirfeddiannwr yn cadw'r tir (Gydag adnoddau?)	Sgiliau rheoli ystadau	Gellid bod diffyg sgiliau arbenigol. Risg o reoli amhriodol. Dim atebolrwydd lleol.
4	Trosglwyddo'r tir i reolwr tir masnachol gydag adnoddau'n cael eu casglu'n flynyddol	Sgiliau rheoli ystadau	Gellid bod diffyg sgiliau arbenigol. Risg o reoli amhriodol. Dim atebolrwydd lleol. Angen ymgysylltu cyrff y trydydd sector a/neu gontractwyr yn y rheoli.
5	Trosglwyddo adnoddau (a thir) i Ymddiriedolaeth annibynnol	Datblygu gweithredu cadwriaethol strategol.	Sefydlu Ymddiriedolwyr annibynnol. Angen ymgysylltu cyrff y trydydd sector a/neu gontractwyr yn y rheoli.